**Casgliad Data 2025 y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion: Hysbysiad Preifatrwydd Data**

**Diben yr Hysbysiad Preifatrwydd Data hwn**

Diben yr hysbysiad hwn yw rhoi sicrwydd bod Casgliad Data 2025 y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith) yn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r casgliad data hwn ar ffurf Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith mewn Ysgolion Uwchradd.

Er bod arolwg y Rhwydwaith yn casglu data anhysbys yn bennaf, gall rhai dysgwyr ddewis cydsynio i gysylltedd data. Mae cysylltedd data yn cynnwys cysylltu ymatebion i'r arolwg yn ddiogel â ffynonellau data eraill sy'n bodoli (e.e. cofnodion addysgol) er mwyn galluogi dadansoddiad mwy cyfoethog. Mae'r broses hon yn cynnwys casglu data personol a data categori arbennig, fel ethnigrwydd a rhyw, i alluogi dadansoddiad a dealltwriaeth fanylach o ddeilliannau iechyd a lles.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cwmpasu proses cysylltedd data hefyd ac mae'n sicrhau bod pob agwedd ar gasglu data, gan gynnwys data personol a data categori arbennig, yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data berthnasol.

**Gwybodaeth am y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith)**

Mae'r Rhwydwaith yn bartneriaeth ymchwil-polisi-ymarfer rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cynhyrchu ac yn trosi tystiolaeth ymchwil er mwyn gwella iechyd a lles pobl ifanc yng Nghymru. Ariennir y Rhwydwaith gan Lywodraeth Cymru.

Bob dwy flynedd, mae ysgolion uwchradd yng Nghymru, sy'n aelodau o'r Rhwydwaith, yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith. Mae canfyddiadau o'r arolwg hwn yn cael eu bwydo'n ôl i ysgolion trwy adroddiadau Iechyd a Lles teilwredig i helpu ysgolion i seilio'u gwaith i wella iechyd a lles dysgwyr ar ddata trylwyr. Yn holl bwysig, caiff yr holl ddata sy'n cael ei rannu gydag ysgolion ei gydgasglu ar lefel ysgol, gan olygu nad yw'n bosibl adnabod unrhyw ddysgwr unigol yn yr adroddiadau.

**Pam rydym ni'n casglu Data Personol?**

Mae data personol yn cael ei gasglu oddi wrth ddysgwyr sy'n cydsynio er mwyn galluogi ymchwil sy'n cysylltu data. Dyma pan fydd ymatebion dysgwr i'r arolwg yn cael eu cysylltu'n ddiogel ac yn anhysbys â data sy'n cael ei ddal amdanynt mewn cronfeydd data eraill, e.e. y GIG a chofnodion addysg.

**Pa Wybodaeth Bersonol ydym ni'n ei chasglu amdanoch chi?**

Mae'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yn gwahodd dysgwyr i rannu gwybodaeth am agweddau ar eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, eu perthnasoedd cymdeithasol a manylion demograffig sylfaenol.
Yn ogystal, rydym yn casglu'r wybodaeth bersonol adnabyddadwy ganlynol gan ddysgwyr sy'n cydsynio i ddata'r arolwg gael ei ddefnyddio at ddiben ymchwil sy'n cysylltu data:

- Enw cyntaf a chyfenw.
- Dyddiad geni.
- Cod post.

Cesglir yr holl ddata categori arbennig canlynol oddi wrth bob dysgwr:

- Tras ethnig.
- Data ar weithgarwch rhywiol i ddysgwyr ym mlynyddoedd ysgol 11 i 13. Gall dysgwyr ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 10 hefyd gael cwestiynau am eu gweithgarwch rhywiol os yw eu hysgol wedi cydsynio i hynny.
- Data ar iechyd

**Sut ydym ni'n casglu Data Personol?**

- Mae'r arolwg yn cael ei reoli gan Ipsos (prosesydd y data) ar ran Prifysgol Caerdydd (rheolydd y data).
- Mae cwestiwn sy'n gofyn am wybodaeth adnabyddadwy – enw, dyddiad geni a chod post – yn ymddangos ar ddiwedd yr arolwg. Gall dysgwyr ddewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn, os yw hynny'n well ganddynt.

**I ba ddiben bydd eich Data Personol yn cael ei ddefnyddio?**

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni bennu'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol. Yn yr ymchwil hon, mae eich data'n cael ei brosesu o dan y sail gyfreithiol bod hynny'n angenrheidiol i gyflawni tasg gyhoeddus – yn benodol, at ddibenion ymchwil wyddonol a hanesyddol. Mae'r prosesu hwn yn cael ei gyflawni yn unol â threfniadau diogelu priodol ac ystyrir ei fod o fudd i'r cyhoedd. Mae Prifysgol Caerdydd, fel sefydliad ymchwil cyhoeddus a sefydlwyd trwy Siarter Brenhinol, wedi ymrwymo i ehangu gwybodaeth ac addysgu trwy ei haddysgu a'i hymchwil. Cewch ein Siarter ar wefan Prifysgol Caerdydd.

**Sut ydym ni'n storio Data Personol?**

Caiff data ei gasglu gan Ipsos, sy'n rhwym yn gytundebol i brosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, ac wedyn caiff ei drosglwyddo'n ddiogel i Brifysgol Caerdydd.

Caiff data personol ei storio mewn ffolder â mynediad cyfyngedig iddi ar weinydd diogel y brifysgol, gyda dilysu defnyddwyr a wal dân yn ei hamddiffyn rhag mynediad anawdurdodedig. Caiff gwybodaeth adnabyddadwy ei storio mewn ffeil wedi'i hamddiffyn gan gyfrinair, o fewn y ffolder. Dim ond yr aelodau staff hynny y mae angen iddynt gael at

ddata personol perthnasol fydd yn cael caniatâd i wneud hynny.

Nid oes copïau papur o ddata personol, gan gynnwys gwybodaeth adnabyddadwy.

**Pwy fydd yn cael mynediad i'ch data a sut bydd yn cael ei ddiogelu?**

(Mae set ddata wedi'i hanonymeiddio yn gasgliad data y mae'r holl ddynodwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol wedi'u dileu'n barhaol ohono neu eu haddasu'n ddiwrthdro ynddo, gan sicrhau na ellir adnabod yr un unigolyn yn rhesymol o'r wybodaeth ynddi. Mae'r broses anonymeiddio yn gwneud y data yn "anhysbys", ac felly nid yw'n dod o fewn cwmpas deddfau diogelu data.)

Mae data adnabyddadwy ond yn cael ei anfon i drydydd parti dibynadwy, trwy drosglwyddo ffeil yn ddiogel, fel rhan o'r broses ymchwil cysylltedd data trwy Fanc Data SAIL. Mae'r trydydd parti dibynadwy ond yn derbyn gwybodaeth adnabyddadwy (h.y. data personol fel enw, dyddiad geni a chod post), nid y data ehangach o Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith. Maent yn defnyddio'r data personol i greu cod wedi'i anonymeiddio i bob cyfranogwr, sydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i gysylltu'n anhysbys eu hatebion i'r arolwg â data o ffynonellau eraill, e.e. cofnodion iechyd neu addysg. I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein taflen ar Gysylltedd Data a gwyliwch ein recordiad.

**Pwy fydd yn cael mynediad i'ch data a sut bydd yn cael ei ddiogelu?**

Ni fydd data adnabyddadwy personol yn cael ei rannu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

**Am ba hyd bydd eich Data Personol yn cael ei gadw?**

Bydd data personol a gesglir ar ddiwedd yr arolwg i alluogi cysylltedd data'n cael ei gadw am isafswm o 5 mlynedd. Bydd data personol arall y gallem fod wedi'i gasglu, er enghraifft eich cydsyniad i gymryd rhan yn yr astudiaeth, yn cael ei gadw am 15 mlynedd, yn unol ag Amserlenni Cadw Cofnodion Prifysgol Caerdydd.

**Pwy yw Rheolydd y Data**

Prifysgol Caerdydd yw Rheolydd y Data ac mae'n ymrwymo i barchu a diogelu eich data personol yn unol â'ch disgwyliadau a deddfwriaeth Diogelu Data. Mae gan y Brifysgol Swyddog Diogelu Data a gallwch gysylltu â'r swyddog trwy inforequest@cardiff.ac.uk.

**Eich Hawliau Diogelu Data**

Mae rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data, gan gynnwys eich hawliau a manylion am sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os hoffech gwyno, i'w cael yma: Eich hawliau diogelu data – Gwybodaeth Gyhoeddus – Prifysgol Caerdydd

Sylwch, gallai eich hawliau i fynediad i'ch data personol, ei addasu neu ei drosglwyddo fod yn gyfyngedig. Mae hyn oherwydd bod rhaid i ni ymdrin â'ch gwybodaeth mewn ffyrdd penodol i sicrhau bod yr ymchwil yn aros yn ddibynadwy ac yn gywir. Os byddwch yn dewis tynnu'n ôl o'r astudiaeth, byddwn yn cadw unrhyw ddata a gasglwyd amdanoch chi eisoes hyd at yr adeg honno, fel y mae deddfwriaeth diogelu data yn ei ganiatáu. Fodd bynnag, mae gennych yr hawl i wrthwynebu parhau i brosesu eich data personol.  Os cyflawni tasg er budd y cyhoedd yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu, byddwn yn ystyried eich gwrthwynebiad yn ofalus ac yn asesu p'un a yw'r angen i ni barhau i broses eich data yn drech na'ch hawliau a'ch rhyddid unigol. I amddiffyn eich preifatrwydd, byddwn yn defnyddio dim ond y wybodaeth adnabyddadwy bersonol leiaf posibl sy'n angenrheidiol ar gyfer yr ymchwil.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau'n gysylltiedig â'r datganiad preifatrwydd data hwn, e-bostiwch dîm y Rhwydwaith ar ** *add email address* **

**Diweddarwyd y ddogfen ddiwethaf: 8 Medi 2025**